OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 43 (Cy. 17)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A449 a'r A40 (Brynbuga i Raglan, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Ionawr 2016* |
| *Yn dod i rym* | *18 Ionawr 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A449 a'r A40) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Ionawr 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A449 a'r A40 (Brynbuga i Raglan, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2016.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle")* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig-

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng gwladol; neu

(ii) at y diben o hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” *(“works period”)* yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 18 Ionawr 2016 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” *(“the lengths of the trunk road”)* yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A449 a'r A40 yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd a bennir

**Atal Dros Dro**

**8.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 wedi eu hatal dros dro drwy hyn ar adegau pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**9.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 11 Ionawr 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gogledd ar yr A449 wrth Gyfnewidfa Brynbuga.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r de ar yr A449 wrth Gyfnewidfa Brynbuga.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gogledd ar yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r de ar yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

## ATODLEN 2
## Terfynau Cyflymder o 50 mya a 40 mya Dros Dro

Y darn hwnnw o gefnffordd yr A449/A40 sy’n ymestyn o bwynt 40 metr i’r de o ganolbwynt tanbont Llanllywel, i'r de o Gyfnewidfa Brynbuga hyd at bwynt 25 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt tanbont Tal-y-fan, i'r gogledd o Gyfnewidfa Rhaglan.

## ATODLEN 3
## Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn hwnnw o gefnffordd yr A449/A40 sy’n ymestyn o bwynt 10 metr i’r de-orllewin o ganolbwynt trosbont Great House, i'r de o Gyfnewidfa Brynbuga hyd at bwynt 300 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt trosbont The Elms, i'r gogledd o Gyfnewidfa Rhaglan.